

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|----------------------------|---|
| PWYLLGOR: | CYNGOR SIR ARBENNIG |
| DYDDIAD: | 13 GORFFENNAF 2011 |
| TEITL YR ADRODDIAD: | GWAHODD YR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL I YNYS MÔN |
| ADRODDIAD GAN: | PRIF WEITHREDWR |
| PWRPAS YR ADRODDIAD: | Ystyried gwahoddiad gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru [CLILC] i awdurdodau lleol ddatgan diddordeb mewn gwahodd Eisteddfodau Urdd Gobaith Cymru a'r Genedlaethol i'w hardaloedd yn y cyfnod rhwng 2017 - 2022 |
| GWEITHREDU: | Gofynnir i aelodau'r Cyngor Sir ystyried cynnwys yr adroddiad a phenderfynu ar yr argymhellion a wneir gan y Prif Weithredwr |

GWAHODD EISTEDDFOD YR URDD NEU'R GENEDLAETHOL 2017 - 2022

1. Derbyniwyd llythyr oddi wrth Dr Chris Llewelyn, Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes, Hamdden a Gwybodaeth, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, dyddiedig 1 Mehefin 2011 yn gwahodd awdurdodau Cymru i ddatgan diddordeb mewn gwahodd naill ai Eisteddfod Urdd Gobaith Cymru neu'r Eisteddfod Genedlaethol i'w hardaloedd yn y cyfnod 2017 – 2022.

Gofynnir am ymateb i'r llythyr [sydd wedi ei gynnwys fel atodiad i'r adroddiad hwn] erbyn **15 Gorffennaf 2011**.

2. Roedd cyn-Arweinydd y Cyngor, ar ran y Pwyllgor Gwaith ar y pryd, wedi awdurdodi'r swyddogion i ysgrifennu at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i nodi dymuniad Cyngor Sir Ynys Môn i gael ystyriaeth i wahodd yr Eisteddfod Genedlaethol i'r sir yn 2017 pe bai cyfle'n codi i wneud hynny.

3. Ar 20 Mehefin 2011 codwyd y mater gan y Prif Weithredwr ym Mwrdd y Comisiynwyr gan ofyn am arweiniad pellach ar y mater yn dilyn llythyr ffurfiol y Gymdeithas. Roedd y Comisiynwyr o'r farn y byddai gwahodd yr Eisteddfod Genedlaethol i Ynys Môn o fudd economaidd a diwylliannol i'r sir ac roeddynt yn awyddus i fwrw ymlaen â'r cais yn amodol i farn holl aelodau'r Cyngor Sir.
4. Cynhaliwyd yr Eisteddfod Genedlaethol ddiwethaf ym Môn yn 1999 ac Eisteddfod Urdd Gobaith Cymru yn 2004. Ar y ddau achlysur bu i'r Cyngor Sir roi cyfraniad sylweddol o'i gyllideb ei hun at gynnal y gweithgareddau, gyda gweddill y costau'n dod o'r cyfraniadau lleol yn yr ardaloedd, nawdd gan y sector fusnes a'r ffioedd a godwyd ar fasnachwyr a'r mynychwyr.

Erbyn hyn, fodd bynnag, mae cyfraniadau awdurdodau lleol yn cael eu cyfarfod yn ganolog drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r trefniant i'w dynnu o'r grant canolog ar gyfer cynnal y dreth Cyngor. Golyga hyn na fyddai'r pwysau ariannol ar y Cyngor Sir yn ddim byd tebyg i'r hyn ydoedd yn 1999 a 2004, ond wrth gwrs byddai rhywfaint o gostau ychwanegol mewn da - amser swyddogion, rhai gwasanaethau cefnogol ac ati.

5. Er fod y rhagolygon ariannol ar gyfer y Cyngor yn ddyrws, ynghyd â'r arian yn yr economi lleol i gefnogi gweithgareddau o'r math hwn, bernir fod y manteision o gael cyfraniad sylweddol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru at y costau, yn gorbwyso'r anfanteision ac y byddai cefnogaeth ymysg cymunedau'r Ynys i gymryd mantais o'r cyfle.

Ar sail hynny argymhellir fod y Cyngor Sir, ar ran trigolion Ynys Môn, yn cadarnhau ei ddiddordeb mewn gwahodd yr Eisteddfod Genedlaethol i'r sir yn 2011, neu mor fuan â phosibl ar ôl hynny, ac yn awdurdodi'r swyddogion i hysbysu Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru o'i safbwynt.

6. **ARGYMHELLION**

- i) Fod Cyngor Sir Ynys Môn yn cefnogi'r arweiniad a roed gan Fwrdd y Comisiynwyr yn ei gyfarfod ar 20 Mehefin 2011, ac yn datgan yn ffurfiol i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ddiddordeb mewn gwahodd yr Eisteddfod Genedlaethol i'r sir yn 2017 neu mor fuan â phosibl wedi hynny.
- ii) Yn dilyn datgan ei ddiddordeb yn ffurfiol fod y Cyngor Sir yn cysylltu â Chynghorau Tref a Chymuned yr Ynys i'w hysbysu o'r camau a gymerwyd a'u gwahodd i gefnogi'r cais a chydweithio gyda'r Cyngor, ar ran y cymunedau, i ymateb i'r sefyllfa fel bo'n briodol.

Our Ref/Ein Cyf:

Your Ref/Eich Cyf:

Date/Dyddiad:

Please ask for/Gofynnwch am:

Direct line/Llinell uniongyrchol:

Email/Ebost:

U:/Education, Leisure and
Culture/Eisteddfod/010611

01 Mehefin 2011

Heledd Bebb

02920 468648

heledd.bebb@wlga.gov.uk



WLGA • CLILC

David Bowles
Managing Director
Isle of Anglesey County Council
Y Swyddfa Addysg, Ffordd Glanhwfa
LLANGFNI
Ynys Môn
LL77 7EY

Annwyl David Bowles,

Gwahodd Eisteddfod yr Urdd neu'r Genedlaethol: 2017-2022

Fel y gwyddoch, mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi llunio cytundebau partneriaeth gyda'r Eisteddfod Genedlaethol a'r Urdd er mwyn eu hariannu yn flynyddol drwy'r setliad llywodraeth leol. Mae hyn yn galluogi'r gwyliau diwylliannol pwysig yma i deithio ar hyd a lled Cymru, gan ymweld â nifer o gymunedau newydd.

Mae'n bwysig i'r awdurdod lleol sy'n gwahodd ac i'r Eisteddfod Genedlaethol a'r Urdd fod y lleoliadau ar gyfer eu cynnal yn y dyfodol yn cael eu cytuno mor gynnar â phosibl, fel y gall trefniadau ar gyfer codi arian yn lleol, a'r broses o chwilio am leoliad addas gychwyn o ddifrif.

Mae lleoliadau ar gyfer Eisteddfodau'r Urdd a'r Genedlaethol wedi eu cytuno hyd at 2016. Yr ydym nawr wedi cyrraedd cyfnod addas ar gyfer cynllunio a pharatoi ar gyfer y blynyddoedd wedi hynny, a hoffem wahodd awdurdodau lleol i ddatgan diddordeb mewn cynnal naill ai'r Eisteddfod Genedlaethol neu Eisteddfod yr Urdd hyd at 2022.

Bydd y penderfyniad terfynol yn ddibynnol ar nifer o feini prawf strategol ac ymarferol, gan gynnwys anghenion safle a phrosesau asesu risg a ddefnyddir gan yr Eisteddfodau ar hyn o bryd.

Buasem yn gwerthfawrogi yn fawr pe bai modd i chi ddarparu datganiad o ddiddordeb cychwynnol os oes gan eich Cyngor ddiddordeb mewn gwahodd Eisteddfod yr Urdd neu'r Genedlaethol i'ch ardal ar unrhyw un o'r blynyddoedd rhwng a chan gynnwys 2017 a 2022.

Nid yw'r datganiad o ddiddordeb hwn yn contract ffurfiol o unrhyw fath, a byddai angen trafodaeth bellach a chytuno manylion ychwanegol rhwng y sefydliadau perthnasol cyn y gellid dod i unrhyw benderfyniad terfynol. A wnewch chi ymateb trwy ddefnyddio'r ffurflen sydd wedi ei atodi i'r llythyr hwn a'i ddanfon yn ôl i Heledd

Steve Thomas CBE
Chief Executive
Prif Weithredwr

Welsh Local Government
Association
Local Government House
Drake Walk
CARDIFF CF10 4LG
Tel: 029 2046 8600
Fax: 029 2046 8601

Cymdeithas Llywodraeth
Leol Cymru
Tŷ Llywodraeth Leol
Rhodfa Drake
CAERDYDD CF10 4LG
Ffôn: 029 2046 8600
Ffacs: 029 2046 8601

www.wlga.gov.uk

Bebb yn WLGA, Tŷ Llywodraeth Leol, Rhodfa Drake, Caerdydd, CF10 4LG neu ebostio'r ffurflen i heledd.bebb@wlga.gov.uk erbyn **Dydd Gwener, 15fed o Orffennaf, 2011.**



WLGA • CLILC

Mae rhai awdurdodau eisoes wedi cysylltu â ni i ddatgan diddordeb, ac nid oes rhaid iddynt wneud hynny eto heblaw eu bod am gael eu hystyried am flynyddoedd pellach. Mae croeso i chi ddarparu unrhyw wybodaeth ychwanegol a fyddai'n ddefnyddiol ar hyn o bryd, ond nid oes unrhyw oblygiadau arnoch i wneud hynny.

Ar ôl i ni dderbyn pob datganiad o ddiddordeb, bydd gweithgor sy'n cynnwys WLGA, yr Eisteddfod Genedlaethol, yr Urdd a Llywodraeth Cymru yn cyfarfod i drafod y posibiladau.

Byddwn mewn cysylltiad gyda'r awdurdodau lleol addas yn fuan wedi hynny am fwy o wybodaeth ac i ymweld â safleoedd posibl. Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach yn y cyfamser, peidiwch oedi cyn cysylltu â mi.

Yr eiddoch yn gywir,



Chris Lieweiyn

Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes, Hamdden a Gwybodaeth

cc. **Elfed Roberts**, *Cyfarwyddwr, Eisteddfod Genedlaethol Cymru*
Efa Gruffydd Jones, *Prif Weithredwr, Urdd*
John Howells, *Cyfarwyddwr Adran Adfywio, Tai a Diwylliant, Llywodraeth Cymru*



WLGA • CLILC

**FFURFLEN DATGAN DIDDORDEB:
GWAHODD**

- **YR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL**
- **EISTEDDFOD YR URDD**

2017-2022

Awdurdod Lleol:

Dymunwn wahodd yr Eisteddfod Genedlaethol neu Eisteddfod yr Urdd yn un o'r blynyddoedd canlynol:

(ticiwch pob opsiwn posibl)

| | Eisteddfod Genedlaethol | Eisteddfod yr Urdd | Sylwadau ychwanegol (nodwch yma os ydych yn ffafrio rhai opsiynau penodol) |
|-------------|--------------------------------|---------------------------|--|
| 2017 | | | |
| 2018 | | | |
| 2019 | | | |
| 2020 | | | |
| 2021 | | | |
| 2022 | | | |

A wnewch chi ddarparu manylion eich prif gyswllt yn yr awdurdod ar gyfer trafodaethau pellach:

| | |
|----------------------------|--|
| Enw'r Prif Gyswllt: | |
| Teitl Swydd: | |
| Rhif Ffôn: | |
| Cyfeiriad Ebst: | |

A wnewch chi lenwi'r ffurflen hon a'i dychwelyd erbyn Dydd Gwener, 15fed o Orffennaf 2011 at: Heledd Bebb, WLGA, Tŷ Llywodraeth Leol, Rhodfa Drake, Caerdydd, CF10 4LG neu ebostiwch: heledd.bebb@wlga.gov.uk

Eisteddfod Genedlaethol Cymru ac Eisteddfod yr Urdd: Canllaw i hwyluso dewis lleoliadau

Cefndir

Cenhadaeth yr Eisteddfod Genedlaethol ac Eisteddfod yr Urdd yw hyrwyddo'r diwylliant Cymreig a diogelu'r iaith Gymraeg.

Er mwyn cefnogi'r genhadaeth hon, diben y canllaw hwn yw amlinellu cyfres o feini prawf i'w defnyddio fel sail i ystyried a dethol lleoliadau addas ar gyfer cynnal Eisteddfodau i'r dyfodol.

Mae'r meini prawf wedi eu hadnabod ar y cyd gan swyddogion yr Eisteddfod Genedlaethol, Eisteddfod yr Urdd, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fel rhan o'r cytundeb cydweithio newydd. Crynhoir y meini prawf fel a ganlyn:

- Cyfraniad at flaenoriaethau strategol
- Effaith Ieithyddol
- Ystyriaethau Ariannol
- Gofynion y Safle

Yn sgil y cytundeb arloesol rhwng y Gymdeithas a'r Eisteddfod Genedlaethol yn 2006, ac yna'r Urdd yn 2007, mae sylfeini ariannol cadarnach gan y ddwy Eisteddfod erbyn hyn. Defnyddir y meini prawf i gynorthwyo trafodaethau rhwng yr Eisteddfodau a'u prif noddwyr er mwyn blaengynllunio ymweliadau'r Eisteddfodau i'r tymor hir er mwyn sicrhau cynnal gwyliau llwyddiannus sy'n cyfrannu hyd yr eithaf at hyfywedd ein hiaith a'n diwylliant ym mhob rhan o Gymru.

Meini prawf dewis lleoliad Eisteddfod

4. Cyfraniad at Flaenoriaethau Strategol

Mae Llywodraeth Cymru, yn rhoi cefnogaeth ariannol allweddol i'r Eisteddfod Genedlaethol ac i Eisteddfod yr Urdd. Yn sgil y cytundebau arloesol diweddar, mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru hefyd yn darparu nawdd creiddiol i'r gwyliau sy'n eu galluogi i flaengynllunio a datblygu eu hunain ar sylfaen mwy cadarn.

Mae i'r Eisteddfod Genedlaethol a'r Urdd gyfraniad pwysig tuag at les economaidd a chymdeithasol y cymunedau hynny yr ymwelir â hwy. Fel gwyliau diwylliannol a chelfyddydol mwyaf Cymru, mae'r Eisteddfodau yma yn fodd o hybu gweithgarwch cymunedol a chymdeithasol amrywiol iawn yn ogystal â rhoi hwb ychwanegol i'r economi leol.

Ar sail rôl bwysig Eisteddfod yn ddiwylliannol, yn gymunedol ac yn economaidd, dylid ystyried cyfraniad yr ŵyl o ran:

- hyrwyddo economi amrywiol, gystadleuol sy'n ychwanegu gwerth sylweddol, gyda lefelau sgiliau ac addysg uchel, sy'n cael cyn lleied o effaith â phosibl ar yr amgylchedd;
- cymryd camau ym maes cyfiawnder cymdeithasol i ddarparu cyfle cyfartal i bawb gymryd rhan lawn yn eu cymunedau, gan eu cynorthwyo i helpu eu hunain a chael profiadau newydd fydd o fudd i'w dyfodol;
- cymryd camau yn ein hamgylchedd adeiledig a naturiol i hybu balchder yn y gymuned, gwella bioamrywiaeth, hyrwyddo cyflogaeth leol a helpu i gadw'r gwastraff a gynhyrchir a'r galw am ynni a thrafnidiaeth i'r lefel isaf bosibl;
- cryfhau hunaniaeth ddiwylliannol Cymru i greu gwlad ddwyieithog;
- sicrhau bod ein holl blant a'r cenedlaethau sydd i ddod yn mwynhau gwell rhagolygon mewn bywyd ac nad ydynt yn etifeddu problemau beichus oddi wrthym ni;
- cefnogi pobl i fyw bywydau iach ac annibynnol;
- hyrwyddo bod yn agored, cydweithio a chymryd rhan.

5. Effaith Teithyddol

Mae hyrwyddo'r Gymraeg a'i diwylliant yn genhadaeth greiddiol i Eisteddfod Genedlaethol Cymru ac i'r Urdd ac mae'n nod polisi i Lywodraeth Cymru. Trwy'r cytundeb diweddar, mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru hefyd wedi gwneud ymrwymiad pwysig tuag at hybu'r defnydd o'r Gymraeg.

Mae ymweliad Eisteddfod ag unrhyw ardal yn gyfle pwysig i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg ar sawl lefel ac mewn sawl ffordd wahanol. Ceir llawer iawn o weithgarwch gwirfoddol ymhlith y pwyllgorau apêl sy'n fodd o gryfhau a datblygu rhwydweithiau yn y gymuned leol. Ceir hefyd gyfle pwysig i godi ymwybyddiaeth unigolion, busnesau a sefydliadau lleol eraill am y Gymraeg a'i diwylliant. Yn ogystal, rhoddir cyfle arbennig i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith busnesau a sefydliadau cyhoeddus a gwirfoddol lleol.

Dylid ystyried ym mha ffyrdd y gallai ymweliad Eisteddfod gael effaith gadarnhaol ar sefyllfa'r Gymraeg o ran:

- codi ymwybyddiaeth a newid agweddau;
- cynnig cyfleoedd cymdeithasol i ddefnyddio'r Gymraeg;
- annog a chefnogi unigolion i ddysgu Cymraeg;

- annog sefydliadau o bob sector i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg.

6. Ystyriaethau Ariannol

Mae'r Eisteddfod Genedlaethol a'r Urdd yn elusennau cofrestredig a chwmnïau cyfyngedig trwy warant. Mae'n gyfrifoldeb ar sefydliadau yma felly i gynnal a datblygu eu hunain fel busnesay hyfyw. Er bod grantiau'r prif noddwyr yn cyfrannu at eu sylfaen ariannol, mae hefyd yn angenrheidiol i'r Eisteddfodau sicrhau trosiant digonol o flwyddyn i flwyddyn. Rhaid, felly, ystyried y risg ariannol sy'n gysylltiedig â chynnal a datblygu gweithgareddau Eisteddfod.

Ynghlwm wrth y sefyllfa ariannol hon ceir rhai ystyriaethau amlwg:

- gallu gwirfoddolwyr lleol i gyfrannu at y Gronfa Leol;
- tywydd;
- elfennau cost sefydlog neu rai y gellir cynllunio ar eu cyfer;
- elfennau cost penodol a all amrywio o flwyddyn i flwyddyn;
- cyfraniadau neu ffynonellau ariannol uwchlaw'r prif noddwyr;
- y risg uwch o ymweld i ardaloedd yn olynol.

7. Gofynion y Safle (gweier y papur atodol)

4.1 Yr Eisteddfod Genedlaethol

Mae gan yr Eisteddfod Genedlaethol a'r Urdd anghenion penodol a hanfodol parthed lleoliad y maes sy'n rhaid eu cyflawni cyn y gellir cynnal yr un Eisteddfod. Yn fras, mae angen:

- oddeutu 140 acer ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol/oddeutu 80 acer ar gyfer Eisteddfod yr Urdd ar gyfer yr holl feysydd, a gorau oll os yw'r tir i gyd o dan yr un berchnogaeth.
- o leiaf dwy ffordd i mewn ac allan o'r meysydd
- cyflenwad dŵr sylweddol

Yn ogystal, rhaid ystyried nifer o elfennau delfrydol eraill mwy cyffredinol sy'n dylanwadu ar anghenion gweithredol dewis lleoliad ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol neu'r Urdd megis:

- pellter hwylus i dref gyfagos
- sustem ffyrdd dda a chyfleus
- addas i gerbydau trwm ei gyrraedd
- dim gwifrau trydan, pibellau nwy neu ddŵr yn croesi'r tir
- lefel dŵr naturiol y tir heb fod yn rhy agos i'r wyneb
- dim adfeilion hynafol ar, nac o dan y tir
- dim bywyd gwyllt prin

Ceir manylion llawn am anghenion safle'r Eisteddfod mewn atodiad manwl a gwneir asesiad llawn o safleoedd posibl ar sail y ddogfen honno.